# Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Gogledd Cymru

## Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar Ionawr 22ain 2016

| **Yn bresennol:** | |
|---|---|
| Arwel Wyn Owen, CS Gwynedd (Cadeirydd)<br>Gwenan Ellis, Cymdeithas Tai Eryri<br>Chris Maggs, SPNAB<br>Y Cynghorydd Joan Lowe, CBS Wrecsam<br>Y Cynghorydd Helen Brown, Cyngor Sir y Fflint<br>Katie Newe, Cyngor Sir Ddinbych<br>Jonathan Clarke, Prawf<br>Katie Clubb, Sir y Fflint<br>Phil Forbes, Iechyd<br>Steve Lynch, Llywodraeth Cymru | Elwen Roberts, Gwasanaethau Trais yn y Cartref De Gwynedd<br>Sheila Phillips, CS Gwynedd<br>Arwel Jones, CS Ynys Môn<br>Debbie Lambe CBS Conwy<br>Rachel Pierce-Jones, CBS Conwy<br>Gwynne Jones, Cartrefi Conwy<br>Robert Loudon, Cymdeithas Tai Clwyd Alun<br>Shirley Jones, CBS Wrecsam<br>Sam Parry, CBS Conwy |

| | | **I'w weithredu gan** |
|---|---|---|
| **1.** | **Cyflwyniad a Chroeso** | |
| | Dywedodd Sam Parry wrth y grŵp bod y Cynghorydd Phil Edwards wedi ymddiswyddo ac felly ni fydd yn aelod mwyach o'r PCRh.<br><br>Siaradodd Arwel Owen ar ran y PCRh pan ddywedodd y byddai'r Pwyllgor ar ei golled yn dilyn ymddeoliad Cynghorydd Phil Edwards, ei fod wedi bod yn aelod gwerthfawr, yn gefnogol a rhagweithiol iawn yn y cyfarfodydd a'r tu allan iddynt i'r rhaglen Cefnogi Pobl ac rydym yn dymuno'r gorau iddo.<br><br>Bydd y Cynghorydd Sue Lloyd-Williams yn aelod llawn o Gyngor Conwy yn awr.<br><br>Cyflwynodd Arwel Owen Mark Greenhaf (Arweinydd Prosiect – arweinydd Llif gwaith ar gyfer gweithgarwch pwrpasol yng Ngharchar Gogledd Cymru) i'r grŵp, gwahoddwyd Mark i'r PCRh i roi diweddariad ar Garchar Gogledd Cymru.<br><br>Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o wrthdaro buddiannau gan yr aelodau. | **RPJ e-bost at y Cynghorydd Edwards** |
| **2.** | **Ymddiheuriadau** | |
| | Lynne Evans, Tai Gogledd Cymru (Dirprwy Gadeirydd)<br>Gwynfor Griffiths, Cyngor Sir Ddinbych<br>Andy Lewis, CBS Wrecsam<br>Shan Lloyd Williams, CS Ynys Môn<br>Clare Budden, Cyngor Sir y Fflint<br>Y Cynghorydd Bobby Feeley, Cyngor Sir Ddinbych<br>Mary Harrison, Anheddau<br>Wyn Thomas, BIPBC<br>Y Cynghorydd Aled M Jones, Ynys Môn<br>David Lloyd, TPAS Cymru<br>Enid Roberts, CCG<br>Helen Williams, Sir y Fflint | |
| **3.** | **Diweddariad ar Garchar Gogledd Cymru – Mark Greenhaf** | |
| | Rhoddodd Mark ddiweddariad i'r PCRh ar y sefyllfa o ran carchar Gogledd Cymru a rhoddodd y wybodaeth ganlynol:<br><br>Y Carchar:<br>• Capasiti'r carchar – 2100 o ddynion (y carchar mwyaf yng Nghymru a Lloegr)<br>• Russell Trent - Llywodraethwr | |

| | | |
|---|---|---|
| | • Carchar Capasiti C/D sy'n gweithio tuag at gael eu rhyddhau<br>• Mae'r gwaith adeiladu ar amser hyd yma – bwriedir i'r carchar agor ym mis Chwefror 2017<br><br>Staff / Recriwtio:<br>• Mae'r broses recriwtio yn mynd rhagddi yn awr – bydd digwyddiadau galw heibio yn cael eu trefnu i arddangos cyfleoedd swyddi, cynhelir cyfweliadau swyddogion y carchar yr wythnos hon, 26 aelod o staff ymyrraeth, tîm seicoleg o 6/7 (gallai hyn gynyddu)<br>• Mae pob cyfweliad yn cynnwys meini prawf sy'n seiliedig ar werthoedd, nid ar gymwysterau yn unig<br><br>Gwerthoedd y Carchar:<br>• Pwyslais cryf ar - lleihau troseddu, adsefydlu ar ôl rhyddhau, diwylliant, gwerthoedd, dysgu a sgiliau Gogledd Cymru, cwricwlwm eang (cyllideb o £4.2 miliwn ar gyfer hyn), gweithdai diwydiant, cyffuriau ac alcohol ac adsefydlu<br>• Golchdy, siop, cegin yn y carchar, i'w cynnal gan y carcharorion<br>• Ceisio peidio rhyddhau rhywun heb gartref sefydlog – angen dechrau gweithio CYN GYNTED Â PHOSIBL, nid 56 diwrnod cyn diwedd dedfryd. Angen cynllunio rhyddhau o'r diwrnod cyntaf.<br>• Bydd y carchar yn cefnogi pobl ag anghenion gofal cymdeithasol, anableddau dysgu ac anableddau.<br><br>Model Adsefydlu:<br>• Y Broses Adsefydlu - tuag at ddiwedd dedfryd o garchar, byddant yn cael eu symud i garchar adsefydlu'r ardal yr oeddent yn byw ynddi, bydd hyn yn eu galluogi i weithio'n lleol gyda Cartrefi Cymunedol Cymru a dychwelyd i'w cymuned, bydd y rhai nad ydynt yn dod o Ogledd Cymru yn cael eu symud i garchar adsefydlu yn yr ardal lle maent yn dod.<br><br>Sut y bydd yn cael ei lenwi?<br>• 200 yn cael eu dewis yn benodol – bydd y rhain yn gweithredu fel mentoriaid cyfoedion<br>• 16 yr wythnos am y 10 wythnos gyntaf - bydd y ffigur hwn yn cynyddu ar ôl y cyfnod hwn<br><br>Estynnir gwahoddiad i Mark i gyfarfod y PCRh yn y dyfodol i roi diweddariad pellach. Diolchwyd i Mark am yr adroddiad diweddaru hwn. | **RPJ i wahodd MG i gyfarfod y PCRh yn y dyfodol** |
| **4.** | **Cynnig – Diweddariad** | |
| | Ynys Môn – dywedodd Arwel Jones nad oedd yn siŵr a oedd deiliad y Portffolio wedi cyflwyno hyn. Arwel i wneud ymholiadau.<br><br>Wrecsam – Mae'r Cynghorydd Joan Lowe wedi'i gyflwyno i'r Prif Gyfreithiwr i weld sut i'w symud ymlaen ond nid yw wedi clywed dim ers hynny. Y Cynghorydd Lowe i wneud ymholiadau ynglŷn â hyn.<br><br>Sir y Fflint – Dywedodd Katie Clubb bod y cynnig hwn yn cael ei gymeradwyo, ond nad oedd wedi'i gyflwyno eto.<br><br>Y Camau Nesaf?<br>Mynegwyd pryder nad oeddem yn symud hyn ymlaen, ac a ydym yn cyfleu'r neges anghywir os nad ydym yn symud y cynnig hwn ymlaen, er bod pob awdurdod yn cytuno arno mewn egwyddor.<br><br>Cytunwyd i barhau i lobïo Cymorth Cymru a chanmol y gwaith mae Cymorth wedi'i | **Arwel Jones**<br><br>**Y Cynghorydd Joan Lowe** |

| | | |
|---|---|---|
| | wneud hyd yma. Dosbarthodd Rachel ddogfen yr oedd Gwent wedi'i chynhyrchu "Cefnogi Pobl, Gwella Bywydau, atal costau". Yr oedd pob aelod yn cefnogi'r ddogfen hon a chytunwyd y dylid cynhyrchu dogfen debyg ar gyfer Gogledd Cymru.<br><br>Dywedodd Steve bod y Gweinidog wedi gallu diogelu'r gyllideb ar ôl derbyn yr ymgyrch a chydnabod y cynnig, roedd mwy o ddata canlyniadau ar gael ac roedd wedi ymweld â nifer o brosiectau Cefnogi Pobl, yn cynnwys rhai yng Ngogledd Cymru. Pe byddai Llywodraeth newydd ar ôl y 5ed o Fai, efallai y bydd barn wahanol am CP ac efallai y bydd cyllideb frys. | **RPJ i ddechrau gweithio ar ddogfen hybu CP Gogledd Cymru.** |
| **5.** | **Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth** | |
| | Rhannwyd y MC gyda'r PCRh er mwyn cael eu sylwadau. Dyma fersiwn terfynol y ddogfen felly ni ellir gwneud unrhyw newidiadau, fodd bynnag, fe nododd y PCRh nad yw'n crybwyll ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru yn y MC, nac unrhyw gyfeiriad ar rôl y Cydlynydd Datblygu Rhanbarthol.<br><br>Mae'r MC yn rhoi pwyslais cryf ar bresenoldeb aelodau, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru fod yn ymwybodol o'r cyfyngiadau ariannol ar lefel ALI, a bod ymrwymiadau pellach wedi'u hychwanegu at y rolau – bydd 75% / presenoldeb llawn yn heriol.<br><br>Bydd y ddogfen hon yn cael ei llofnodi gan bob aelod sy'n Pleidleisio a Dirprwy aelodau erbyn Ebrill 2015. Bydd Rachel yn trefnu'r llofnodion.<br><br>Y MC a'r Cynllun Strategol Rhanbarthol:<br><br>Mae'r MC yn cynnwys manylion am y Cynllun Strategol Rhanbarthol. Awgrymodd Rachel nad yw'r cynllun presennol wedi'i alinio'n gyfan gwbl strategol â Chynlluniau Comisiynu Lleol. Mae'r Cynllun Comisiynu Rhanbarthol presennol ar ffurf drafft terfynol ac nid yw'r Cynlluniau Comisiynu Lleol wedi'u hanfon at RPJ.<br><br>Er bod yr aelodau o'r farn ei fod wedi'i alinio'n strategol oherwydd bod pawb wedi mynychu a chyfrannu at weithdai'r PCRh – mae'r blaenoriaethau yr oedd y PCRh wedi cytuno arnynt yn y gweithdai hyn o'r data Canlyniadau a Mapio Anghenion ac nid o adroddiadau data unigol ar gyfer pob awdurdod.<br><br>Nid yw pob ALI wedi cyflwyno eu blaenoriaethau yn llawn i'r grŵp ac mae angen gwella hyn wrth symud ymlaen er mwyn iddynt alinio a bod Llywodraeth Cymru yn gallu gweld y berthynas ranbarthol a lleol yn glir. Fodd bynnag, fel y nodwyd, ni fydd pob awdurdod yn cynhyrchu eu Cynlluniau Comisiynu Lleol nes y byddant yn gwybod beth yw eu cyllideb, mae'r terfynau amser sy'n cael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y cynlluniau hyn yn ei gwneud yn anodd alinio blaenoriaethau strategol rhanbarthol a lleol yn strategol.<br><br>Mae Cyngor Sir Ddinbych, Gwynedd a Wrecsam wedi anfon eu Cynlluniau Comisiynu Lleol wedi'u diweddaru drwy 2015. | **RPJ i drefnu i'r MC gael ei lofnodi** |
| **6** | **Cynllun Strategol Rhanbarthol** | |
| | Roedd y drafft terfynol wedi'i anfon gyda'r agenda – Mae gan bob Aelod hyd at ddydd Iau 28$^{ain}$ Ionawr i roi unrhyw sylwadau / diwygiadau pellach.<br><br>Yna cyflwynir hyn ar gyfer ymgynghoriad ddydd Gwener 29$^{ain}$ Ionawr hyd at 10$^{fed}$ Chwefror.<br><br>Y dyddiad cau ar gyfer Llywodraeth Cymru – Chwefror 15$^{fed}$ 2016.<br><br>Cytunodd aelodau'r PCRh ar gynnwys y Cynllun Strategol Rhanbarthol cyn yr ymgynghoriad. | **RPJ i drefnu** |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| **7.** | **Effaith derfyn Ffoaduriaid o Syria – trafodaeth** | |
| | Mae pob ALl wedi cytuno mewn egwyddor eu bod yn barod i dderbyn ffoaduriaid o Syria. A oes unrhyw gyfleoedd i gydweithio?<br><br>Ystyriwyd y dylid aros i weld beth oedd canlyniad Cyfarfod Rhanbarthol y Prif Weithredwyr heddiw a diweddaru a chytuno ar y camau nesaf ar gyfer cyfarfod nesaf y PCRh ar 11eg Mawrth.<br><br>Mae Sir Ddinbych yn datblygu gwasanaeth ymgyfarwyddo. Bodlon i ALl eraill ymuno yn hyn, mae'n cael ei ariannu gan CP.<br><br>Yn nhermau cydweithio ar ffoaduriaid Syria mae angen i ni amlygu Ymgyfarwyddo, Cyfieithu fel dau faes posibl. Cytunwyd i ymchwilio i'r posibilrwydd o gydweithio ac alinio amserlen ond mae angen datblygu a symud ymlaen.<br><br>Rachel i gynnwys yr eitem hon ar yr agenda yn y dyfodol. | **RPJ - agenda** |
| **8.** | **Eitemau Sefydlog ar yr Agenda** | |
| **8.1** | **Diweddariad Llywodraeth Cymru** | |
| | Anfonwyd hwn gyda'r agenda. A bydd yn cael ei anfon fel atodiad gyda'r cofnodion hyn.<br><br>Ychwanegodd Steve Lynch at hyn bod Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Cefnogi Pobl (SPNAB) wedi cynnal ei ddiwrnod Cyfranogiad Defnyddwyr gwasanaeth yng Ngogledd Cymru ddoe, a bod nifer o ddefnyddwyr gwasanaeth wedi ei fynychu. Roedd yn gyfle i ddefnyddwyr gwasanaeth fynegi eu barn hwy ar raglen Cefnogi Pobl. Mae gan Rachel y nodiadau / themâu o bob tabl a bydd yn eu dosbarthu i'r PCRh er gwybodaeth.<br><br>Steve i adrodd yn ôl bod y bobl a fynychodd y diwrnod yn siomedig nad oedd cynrychiolwyr o SPNAB yn bresennol. | **RPJ**<br><br>**RPJ** |
| **8.2** | **Gwneud cysylltiadau gyda Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a Cymunedau yn Gyntaf** | |
| | Mae Rachel wedi gwneud cysylltiadau gyda Rhian Allen, Gweithiwr Cymorth Rhanbarthol ar gyfer y rhaglenni hyn. Rachel i wahodd Rhian i un o gyfarfodydd y PCRh yn y dyfodol.<br><br>Nodwyd bod Cymunedau yn Gyntaf yn derbyn gwybodaeth am aliniad y gyllideb ond nid yw CP yn derbyn hyn – Steve Lynch i wneud ymholiadau i ganfod pam. | **RPJ**<br><br>**Steve Lynch** |
| **8.3** | **Arfer Gorau** | |
| | Ni rannwyd unrhyw arfer gorau, rhoddir cyflwyniad ar Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol yng nghyfarfod y PCRh ym mis Mawrth. | |
| **8.4** | **Arbed Ynni** | |
| | Diweddariad ar y Prosiect Peilot erbyn cyfarfod nesaf y PCRh. | |
| **8.5** | **Cynllun Gwaith y PCRh** | |
| | I'w ychwanegu ar ôl llofnodi a chytuno ar y Cynllun Strategol Rhanbarthol. | |
| **8.6** | **Cyfranogiad Defnyddwyr Gwasanaeth** | |
| | Sir y Fflint i wneud cyflwyniad yn y cyfarfod nesaf. | |
| **8.7** | **Unrhyw Fater Arall** | |
| | Phil Forbes – Menter newydd mewn ysbytai i gyfarfodydd gael eu cynnal pan fydd | |

| | | |
|---|---|---|
| | cleifion yn cael eu rhyddhau, CP i'w gwahodd i'r rhain, sut allwn ni wneud cysyllltiadau yma? Nid yw staff wardiau yn ymwybodol o'r ddarpariaeth CP.<br><br>Ychwanegu'r Uchafswm Tai ALl a'r Credyd Cynhwysol i'r agenda nesaf. Mae Rachel wedi rhannu gwybodaeth am yr uchafswm Tai ALl. Rachel i wahodd Bev o DWP i gyfarfod nesaf y PCRh. Cael yr e-bost gan Jono Clarke. | |
| | **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf** | |
| | Mawrth 11eg 2016 am 10:00am yn Optic Centre Llanelwy. | |

## Tabl o gamau gweithredu

| Cam Gweithredu | Pwy | Statws |
|---|---|---|
| Rachel i anfon e-bost at y Cynghorydd Phil Edwards a diolch ar ran y PCRh. | RPJ | Cwblhawyd |
| Gwahodd Mark Greenhaf i gyfarfod y PCRh yn y dyfodol – Tachwedd – i'w gadarnhau | RPJ | Cwblhawyd, Mark yn fodlon dod i gyfarfod y PCRh yn y dyfodol (Tachwedd) |
| Arwel Jones i gysylltu â'r Cyngor Llawn i gael y diweddariad yn Ynys Môn | Arwel Jones | Mynd i'r cyfarfod nesaf |
| Y Cynghorydd Joan Lowe i gysylltu â'r Prif Weithredwr ynglŷn â'r Cynnig | Y Cynghorydd Joan Lowe | Ni roddwyd diweddariad pellach |
| RPJ i greu fersiwn Gogledd Cymru o ddogfen Gwent | RPJ | Dechrau – y drafft yn barod ar gyfer y gweithdy ym mis Mai |
| RPJ i drefnu i aelodau lofnodi'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth | RPJ | Pawb i'w lofnodi yng nghyfarfod y PCRh ym mis Mai |
| RPJ i anfon y Cynllun Comisiynu Rhanbarthol ar gyfer ymgynghori arno | RPJ | Cwblhawyd |
| Pob Aelod – Anfon sylwadau terfynol ar y Cynllun Comisiynu Rhanbarthol at Rachel erbyn Ionawr 28ain | Pob Aelod | Cwblhawyd<br>Y dyddiad cau wedi mynd heibio a ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau |
| RPJ i gynnwys 'Effaith derbyn Ffoaduriaid o Syria' ar yr agenda ar gyfer cyfarfod y PCRh ym mis Mawrth | RPJ | Cwblhawyd |
| RPJ i anfon diweddariad Llywodraeth Cymru gyda'r Cofnodion | RPJ | Cwblhawyd – anfonwyd gyda chofnodion drafft Ionawr 28ain |
| RPJ i anfon adborth Cyfranogiad Defnyddwyr Gwasanaeth o ddigwyddiad SPNAB gyda'r cofnodion. | RPJ | Cwblhawyd – anfonwyd gyda chofnodion drafft Ionawr 28ain |
| RPJ i wahodd Bev o DWP i gyfarfod nesaf y PCRh – cael yr e-bost gan Jono Clarke | RPJ | Cwblhawyd |